# CYFEIRIADUR CEFNOGI YMDDYGIAD CADARNHAOL

ADRAN DDYSGU

CBS MERTHYR TUDFUL

**Cyflwyniad**

Rydym yn ddigon ffodus i fyw mewn ardal ble mae gwe gymhleth o wasanaethau'n bodoli i gefnogi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd wrth iddynt ddelio gyda'r materion y maent yn eu hwynebu yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Yn aml, yr anhawster i'r holl wasanaethau ac ysgolion yw deall pa wasanaethau sydd ar gael 'ar draws y gymuned' a deall 'beth sydd ganddynt i'w gynnig' i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd a fydd yn cynorthwyo ysgolion i reoli ymddygiad eu disgyblion. Ochr yn ochr â hyn yn aml ceir natur gymhleth 'cymhwysedd' a sut i gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Cafodd y cyfeiriadur hwn ei greu er mwyn ymdrechu i gynorthwyo ysgolion wrth fordwyo'r gwasanaethau hyn ac er mwyn annog defnydd eang o'r gwasanaethau sydd ar eu cyfer i reoli ymddygiad, darparu ymagwedd ysgol gyfan ac o ganlyniad siapio cymunedau'r dyfodol.

**Ymateb Graddedig**

Mae sicrhau fod yna ymagwedd person-ganolog a holistaidd o gwmpas yr unigolyn neu'r teulu yn hanfodol i sicrhau bod y gefnogaeth briodol yn cael ei darparu. Hyn, ynghyd â'r ddealltwriaeth fod y fframwaith sylfaenol ar gyfer ymyrraeth yn gallu sicrhau bod y cyfeirio cywir yn cael ei wneud ar yr adeg gywir ac at y gwasanaeth cywir. Pe byddech mewn unrhyw amheuaeth ynghylch priodolwyd cyfeirio yna gellir cael cyngor o'r cysylltiadau a roddir yn y cyfeiriadur hwn neu oddi wrth Hyb Cymorth Cynnar y Cyngor. Gellir cael gwybodaeth ar-lein am wasanaethau sydd ar gael oddi wrth (provide electronic link / web address)

| Haen | Egwyddorion yr Ymateb Graddedig ar draws Ysgolion a Chymunedau | |
|---|---|---|
| 4 | Plant a Theuluoedd mewn Creisis | Gwasanaethau Statudol / Arbenigol |
| 3 | Dysgwyr / Teuluoedd sydd angen Gwasanaethau Uwch | Partneriaid AALl ac Aml Gymunedol – yn cynnwys ysgolion yn darparu cynllun a rennir o ymyraethau nad ydynt angen gwasanaethau statudol |
| 2 | Dysgwyr / Teuluoedd sydd angen Cefnogaeth ychwanegol | Ymyraethau'n cael eu cyflenwi drwy'r ysgol neu gan asiantaeth allanol fel rhan o gynllun cefnogi ysgol |
| 1 | Gwasanaethau Cyffredinol ac ymagweddau ysgol gyfan | |

* Yn draddodiadol mae ysgolion wedi defnyddio'r derminoleg o weithredu ysgol neu weithredu ysgol plys i ddynodi'r disgyblion hynny a fyddai, wrth ddefnyddio'r uchod, yn cydberthyn i ddarpariaeth Haen 2 a 3. Dylai ysgolion wneud y mwyaf o'r gefnogaeth sydd ar gael ble bynnag y bo'n bosibl i sicrhau ymyrraeth gynnar mewn ymgais i atal materion rhag dwysau i'r angen am wasanaethau statudol.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | | Cefnogaeth Ychwanegol | | Gwasanaeth Uwch | | Creisis | |

***Ymagwedd Ysgol Gyfan i Annog Ymddygiad Cadarnhaol***

*Mae polisi ymddygiad ysgol yn siapio ethos yr ysgol ac yn gwneud datganiad am sut mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys y bobl ynddi hi. Mae mabwysiadu ymagwedd o ymddygiad cadarnhaol yn sail hanfodol ar gyfer amgylchedd dysgu ac addysgu sy'n greadigol ac yn effeithiol ble mae holl aelodau cymuned yr ysgol yn gallu ffynnu a theimlo'u bod yn cael eu parchu, yn ddiogel ac yn saff. Mae polisi sy'n cael ei weithredu'n dda yn ffactor bwysig o ran ennill hyder disgyblion a rhieni/ gofalwyr mewn ysgol ac o ran denu a chadw staff o ansawdd da sydd wedi'u hysgogi'n dda. Bydd ysgolion ar eu mwyaf effeithiol pan gaiff y polisi ymddygiad ei gymhwyso'n gyson ar draws cymuned yr ysgol gyfan.*

*Wedi'i gyfeirio yn Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion cylchlythyr [Llywodraeth Cymru] 47/2006 mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer polisïau ymddygiad ysgolion fel a ganlyn;*

***1.** Mae'n ofynnol yn ôl Adran 88 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 bod corff llywodraethu yn sicrhau bod ei ysgol yn dilyn polisïau sydd wedi eu cynllunio i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Yn benodol mae'n:*

> *a.* ***Gofyn bod corff llywodraethu yn gwneud ac yn adolygu datganiad ysgrifenedig o egwyddorion i arwain y pennaeth i bennu mesurau ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol.***
>
> *b.* ***Pan fo'r corff llywodraethu am gyflwyno mesurau penodol neu fynd i'r afael â materion penodol, mae'n ofynnol bod y corff llywodraethu'n hysbysu'r pennaeth ac yn ei alluogi i roi arweiniad pellach.***

***2.** Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn rhaid bod y corff llywodraethu yn talu sylw i'r canllaw a roddir gan Weinidogion Cymru.*

*Cyn gwneud neu adolygu ei ddatganiad o egwyddorion, ymgynghorwch â'r pennaeth a rhieni/gofalwyr, disgyblion a phersonau eraill sy'n gweithio yn yr ysgol (boed ar gyfer taliad ai peidio) y mae'r corff llywodraethu'n teimlo y byddai'n briodol ymgynghori â nhw. Cafodd ymgynghoriad gyda disgyblion a staff ei ychwanegu fel gofyniad newydd o Hydref 2010.*

*Wrth ddylunio polisi ar gyfer ymddygiad, dylai ysgolion ddangos ble y mae'n cysylltu gyda pholisïau eraill yr ysgol fel yr un ar gyfer presenoldeb disgybl a gwrth fwlio. Mae angen polisi penodol ar bob ysgol ar gyfer ei hamgylchiadau ei hun ac fe ddylai gynnwys sut mae'r ysgol yn hybu safonau uchel o ymddygiad a sut y mae'n cynllunio delio gydag ymddygiad gwael.*

Mae cyfrifoldeb gan yr ysgol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a gall hyn olygu gosod mewn lle ymyraethau perthnasol targedig wedi eu lleoli yn yr ysgol, er enghraifft:

- Casglu Data Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol (CYG) (h.y. plotiau gwasgar; siartiau SEREN; graffiau a dadansoddi)
- Gwaith Ymarfer person-ganolog (YP-G) (h.y. Beth sy'n gweithio/ ddim yn gweithio; Cylch Perthynas; Dydd da, Dydd gwael ayb)
- Cynllun Addysg / Ymddygiad Unigol (CAU / CYU)

- Boxall
- Strategaethau / ymyraethau unigolyddol (h.y. ELSA; SEAL; Therapi Chwarae; Therapi Lego; Wellcomm, SAP, Therapi Cerdd; Therapi Chwarae; gwaith meithrin gyda rhieni ayb)



## Canllaw cyfeirnod cyflym

Caiff rhaglenni cefnogi eu cynnig mewn amrywiaeth o ffyrdd – mae rhai yn targedu dysgwyr unigol, rhieni yn unig neu'n dilyn ymagwedd deuluol ehangach. Isod, dynodir yr ymagwedd ar draws yr ymyraethau a restrir yn y ddogfen hon:

**Dysgwr Unigol:**

- Gwasanaeth cymorth ysgolion
- Gwasanaeth Seicoleg Addysg
- Gwasanaeth Cwnsela Integredig
- Cymorth Ieuenctid
- Ysbrydoli i Gyflawni
- Ysbrydoli i Weithio
- Iechyd Emosiynol Sylfaenol
- Tîm Niwroddatblyiadol

**Rhieni:**

- Rhianta Y Blynyddoedd Rhyfeddol
- Cryfhau Teuluoedd
- Rhaglen Tair P yr Arddegau
- Cwnsela Cyfnewid
- Rhianta New Forest
- Rhaglen Take 3
- Early Bird Plus

**Teuluoedd**

- Hyb Cymorth Cynnar
- Tîm o Gwmpas y Teulu
- Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd
- Y Rhaglen Deuluol

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | | Cefnogaeth Ychwanegol | | Gwasanaeth Uwch | | Creisis | |

## *ADRAN 1. CYMORTH I DDYSGWYR UNIGOL*

## Gwasanaeth Cefnogi Ysgol (yn cynnwys Greenfield yn y Gymuned)

Mae'r gwasanaeth cefnogi ysgolion yn darparu ymyrraeth gefnogol i blant a phobl ifanc sydd ag anawsterau ymddygiadol emosiynol. Mae'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd disgyblion, ysgolion, Seicolegwyr Addysg ac asiantaethau eraill, gan ddarparu cyngor a chanllawiau i ysgolion a chefnogaeth 1-1 i ddisgyblion sydd mewn risg o gael eu heithrio.

Ymyraethau:

- Therapi sy'n Canolbwyntio ar Ateb
- Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol (CYG)
- Cyfiawnder Adferol
- Therapi Lego
- Modelu Ymddygiad
- ELSA
- Cefnogi disgybl 1-1
- Ymarfer Person Ganolog (YP-G)
- Cyngor / strategaethau i gefnogi disgyblion â ADY yn yr ystafell ddosbarth brif ffrwd
- Ymwybyddiaeth o Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig
- POPAT(programme of Phoneme Awareness Training)

**Am wybodaeth bellach cysylltwch:**

**Paul Barsi - 07595 087 297** E-bost: paul.barsi@merthyr.gov.uk

## Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlentyn

Mae Seicolegwyr Addysg yn defnyddio'u gwybodaeth am seicoleg i gefnogi plant, rhieni ac athrawon pan fo pryderon o ran dysgu'r plentyn ynghylch ei ddatblygiad a'i ymddygiad. Mae Seicolegwyr Addysg yn gweithio ar y cyd gydag athrawon, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i helpu i ddynodi cryfderau ac anawsterau plant ac i ddatblygu strategaethau ar gyfer newid.

Yn bennaf mae Seicolegwyr Addysg yn gweithio mewn lleoliadau addysgol yn yr awdurdod lleol, yn cynnwys ysgolion prif ffrwd ac yn arbennig, grwpiau chwarae a meithrinfeydd a chlinigau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol.

Ymhlith y mathau o waith mae:

- Ymgynghori a chyngor ar amrywiaeth o ADY a materion llesiant.
- Cyflawni asesiadau unigol trylwyr (e.e. asesiad gwybyddol, profi cyflawniad, sgrinio ac asesu diagnostig).

- Ymyraethau unigol, grŵp neu ysgol gyfan ar gyfer newid (e.e. Chwarae'n Seiliedig ar Berthynas, Hyfforddiant Emosiwn, Therapi Lego, Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Ateb, CBT, ymwybyddiaeth feddylgar, therapi naratif, cynllunio person-ganolog, cyfweld ysgogol).
- Darparu hyfforddiant ar gyfer datblygu proffesiynol.
- Ymchwil.



Gall y Cynllun Addysg weithio'n uniongyrchol gyda disgybl i drafod ei gryfderau ac anawsterau, hoffterau ac anhoffterau, a sut yr hoffai symud yn ei flaen.

Gallant weithio gyda'r oedolion sy'n agos at ddisgybl, gan gynnwys rhiant/rhieni/ gofalwyr ac athro/athrawon. Gallant gyflawni arsylwadau ac asesiadau i wella'u dealltwriaeth o gryfderau ac anawsterau'r disgybl. Byddant yn gefnogol, yn gwrando ar safbwyntiau'r disgybl ac yn eu cynnwys wrth gynllunio gweithredu ar gyfer newid.

**Am wybodaeth bellach cysylltwch:**

**Bronwen Parry – 01685 724642** E-bost: Bronwen.parry@merthyr.gov.uk

## Gwasanaeth Cwnsela Integredig

Darparu gwasanaeth cyfrinachol a therapiwtig integredig sy'n cynnwys:

- Cwnsela cymunedol i blant a phobl ifanc gan roi blaenoriaeth i'r rhai 2-25 oed
- Therapi Ymlyniad a Chwarae i deuluoedd

Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy asesiad craidd, gwaith un i un, gwaith grŵp, myfyrio a chynadledda grŵp. Mae'r sesiynau'n gyfrinachol ac yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i agor lan ac archwilio'r hyn sy'n cyfri iddyn nhw fel unigolion a'r atebion heriol y maen nhw'n eu hwynebu. Gyda chymorth technegau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, bydd y cwnsler yn helpu i ddod o hyd i atebion i'w problemau. Mae hyn yn cynnwys ymddygiad heriol sy'n deillio o:

- Hunan niweidio a hunanladdiad
- Trais
- Bwlio
- Amgylchiadau teuluol
- Cyfeillgarwch
- Rheoli dicter
- Stres
- Unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar ymddygiad
- I blant iau defnyddir chwarae fel ffordd o archwilio'r teimladau hyn

**Am wybodaeth bellach cysylltwch – 01685 724953** E-bost: emma@exchange-counselling.wales

## Cymorth Ieuenctid

Cyflenwi cymorth targedig i bobl ifanc rhwng 10-18 oed am y problemau allweddol y mae pobl ifanc yn eu profi sydd hefyd yn gallu cael effaith negyddol ar eu hymddygiad. Adeiladu gallu pobl ifanc i ystyried ymddygiad a risg, eu cefnogi nhw i wneud penderfyniadau rhesymedig a chymryd rheolaeth dros eu sefyllfa. Mae hyn yn cynnwys:



- Datblygu'r gallu i bobl ifanc reoli perthynas personol a chymdeithasol
- Datblygu agweddau, ymddygiad a dyheadau cadarnhaol
- Diogelu pobl ifanc o'r difrod gaiff ei achosi yn sgil amlygrwydd at “ACE” a phrofiadau tebyg eraill
- Hyrwyddo ymarfer corff a ffitrwydd
- Perthnasoedd cadarnhaol, codi ymwybyddiaeth ac iechyd rhyw
- Negeseuon allweddol ynghylch deiet a maeth
- Negeseuon allweddol ynghylch cam-drin sylweddau ac alcohol
- Gwybodaeth, cyngor a chanllawiau wedi eu teilwra i anghenion pobl ifanc
- Gweithgareddau grŵp cymheiriaid sy'n galluogi pobl ifanc i'w helpu eu hunain a'i gilydd

**“Rhaglen Gwytnwch” – cynigir drwy'r ysgol uwchradd, sy'n cynnwys:**

Amrywiaeth o ymyraethau sy'n diwallu anghenion pobl ifanc gydag amgylchedd grŵp. Mae'r sesiynau'n canolbwyntio ar:

- Rheoli dicter
- Adeiladu hyder
- Goresgyn pryder
- Ymddygiad gwrth gymdeithasol
- Cyfeillgarwch
- Diogelwch ar y we
- Hylendid personol
- Adeiladu tîm
- Digwyddiad dathlu a digwyddiad i'r Teulu: “TAF"

**Am wybodaeth bellach cysylltwch:**

**Lisa Bruford 01685725197** E-bost: Lisa.bruford@merthyr.gov.uk

## Iechyd Meddwl a Digartrefedd ymhlith Ieuenctid

Mae'r Tîm Iechyd Meddwl a Digartrefedd ymhlith Ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc rhwng 11-25 oed sydd â phroblemau Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol. Mae'r tîm yn darparu

Ymyraethau Iechyd Emosiynol a Llesiant Anghlinigol Un i Un i bobl ifanc. Mae'r tîm hefyd yn darparu sesiynau grŵp ynghylch Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol fel pwnc.

Mae'r tîm hefyd yn gweithio'n agos at yr holl weithwyr proffesiynol i sicrhau effeithiolrwydd Llwybr Digartrefedd Ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys gwaith grŵp ac un i un i ddarparu'r rhaglen Drysau Agored.



Mae Drysau Agored yn adnodd sy'n codi ymwybyddiaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 11-18 oed gyda'r nod cyffredinol o leihau anghenion digartrefedd a thai yn y dyfodol ymhlith pobl ifanc. Mae'n cyflwyno agweddau amrywiol o dai a digartrefedd ac yn cynnwys y meysydd dysgu canlynol:

- Cysyniadau a stereoteipiau
- Byw'n annibynnol
- Meithrin ac ysbryd cymunedol
- Gwybod o ble i gyfeirio at gymorth pe byddech yn wynebu digartrefedd

**Am wybodaeth bellach cysylltwch:**

**Lisa Bruford 01685725197** E-bost: Lisa.bruford@merthyr.gov.uk

## Ysbrydoli i Gyflawni

Mae ffocws clir gan y rhaglen hon ynghylch cynnal a chadw pobl ifanc sydd wedi cael eu dynodi gan ddefnyddio'r pecyn offer dynodi cynnar (EIT) o fod mewn perygl o ddyfod i fod yn NEET (RED). Gan ddarparu ymyrraeth gynnar wedi ei hanelu at ddynodi rhwystrau unigol a darparu gweithredu cefnogol i leihau'r risg ohonynt yn gadael addysg. Ymhlith yr ymyraethau hyn mae:

- Gwaith Arweiniol
- Cyflenwi "Rhaglen Ysbrydoli" CA4 wedi ei gydweddu gyda Lleoliad Gwaith
- "Ymgysylltu â Chyflogwr"
- Rhaglen gyflenwi CA3 wedi ei gydweddi ag Alumni

Mae'r holl ymyraethau'n anelu at wella perfformiad academaidd, datblygiad personol a chymdeithasol, cynyddu presenoldeb yn yr ysgol a galluogi pobl ifanc i ennill cymwysterau gan gynyddu cyfleodd a chynorthwyo'u datblygiad i addysg bellach. Ymhlith y buddiolwyr ar y cyd mae'r Awdurdodau Lleol, Colegau Addysg Bellach a Gyrfa Cymru.

**Am wybodaeth bellach cysylltwch:**

**Jamie Spooner 01685 – 725462 E-bost: Jamie.spooner@merthyr.gov.uk**

## Ysbrydoli i Weithio

Mae Ysbrydoli i Weithio yn targedu pobl ifanc rhwng 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (EET). Mae'r rhaglen yn cynnig pecynnau wedi eu teilwra i fodloni anghenion pobl ifanc y gellir eu cyflenwi ar sail un i un neu mewn sesiynau grŵp bach. Mae'r sesiynau hyn yn helpu i wella iechyd a llesiant, ac ennill cymwysterau a dod o hyd i lwybrau addas i mewn i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.



- Cefnogaeth un i un i helpu i wella hyder a hunan-les a'r gallu i weithio fel rhan o dîm drwy fentora, cyngor, arweiniad a chynllunio gyrfa
- Hyfforddiant Cyn Cyflogaeth – cyflawni tystysgrifau Iechyd a Diogelwch, Codi a Chario a Chymorth Cyntaf ac amrywiaeth o achrediadau a hyfforddiant arall sy'n berthnasol i'r gwaith
- Cymwysterau - gweithio tuag at gymhwyster cydnabyddedig lefel 2 mewn pynciau sy'n berthnasol i'r gwaith fel Creu CV, Datblygu Hyder Personol a Hunanymwybyddiaeth a Hyfforddiant Cyfweliad
- Paratoi Gwaith – cefnogi i gwblhau chwiliadau gwaith, ceisiadau am swydd a pharatoi am gyfweliadau
- Lleoliad Gwaith – rhwydweithio gyda chyflogwyr lleol i gynnig lleoliadau gwaith i estyn eich CV a'ch symud yn nes at gyflogaeth

**Am wybodaeth bellach cysylltwch:**

**Jamie Spooner 01685 – 725462 E-bost: Jamie.spooner@merthyr.gov.uk**

## Tîm Iechyd Emosiynol Sylfaenol

Darparu cefnogaeth iechyd emosiynol arbenigol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd nad ydynt yn bodloni trothwy CAMHS. Mae'r ymyraethau'n cynnwys:

- Perfformio asesiad o iechyd meddwl ac emosiynol plentyn neu berson ifanc a dynodi'r llwybr cywir ar gyfer cyfeirio.
- Perfformio asesiad cychwynnol ar gyfer ADHD neu ASD a gwneud y cyfeirio priodol.
- Dynodi cyswllt gyda CAMHS Eilradd a sicrhau cyfathrebu effeithiol i drafod achosion risg uchel gydag Ymgynghorydd CAMHS dynodedig ar gyfer ardal Merthyr
- Ymgymryd neu gynorthwyo gyda chreisis a chynllun wrth gefn ar gyfer ymddygiad sy'n dangos risg
- Ymgymryd ag archwiliad ysgol pan fydd anhwylder datblygiadol nerfol yn cael ei archwilio
- Cefnogi'r teulu gan gyfeirio at yr asiantaeth ofynnol, hynny yw CAMHS neu wasanaeth niwroddatblygiadol
- Cefnogaeth i aelodau o'r teulu i ddeall iechyd meddwl plentyn yn well neu ddiagnosis niwroddatblygiadol
- Gwaith uniongyrchol, ymyraethau byr Ymddygiad Gwybyddol ar gyfer plant
- Defnyddio graddfeydd asesu i ddynodi pryderon gwaelodlin, er enghraifft lefelau iselder, pryder, ac yna ail raddio'n rheolaidd i bennu a gafwyd gwelliant o ran symptomau dros y cyfnod a fesurwyd

- Gwaith uniongyrchol, therapi sy'n canolbwyntio ar ateb byr i blentyn / personau

**Am wybodaeth bellach cysylltwch:**

**Lynne Hannington – 01685 351268** E-bost: lynne.hannington@nhs.uk



## Tîm Niwroddatblygiadol (NDT)

Tîm bach amlddisgyblaethol yw NDT sy'n darparu gwybodaeth arbenigol a sgiliau i blant a phobl ifanc â chyflyrau cymhleth niwroddatblygiadol (gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth (ASD), anhwylder diffyg canolbwyntio / gorfywiogrwydd (ADHD) a syndrom Tourette's) a'u teuluoedd yn y meysydd canlynol:

- Asesiad
- Diagnosis
- Cyngor ac ymyrraeth (ble fo'n briodol ac yn bosibl) a
- Chysylltu gyda gwasanaethau cyfredol oddi fewn i'r Bwrdd Iechyd, asiantaethau partner a sefydliadau gwirfoddol

Caiff ceisiadau am asesiadau eu hystyried gan ddarparwyr gofal cynradd ac uwchradd, gyhyd ag y bo gwybodaeth ddigonol berthnasol ar gael. Fodd bynnag, caiff asesiadau am geisiadau eu hannog oddi wrth weithwyr proffesiynol sy'n adnabod y person ifanc orau.

**Am wybodaeth bellach cysylltwch: 01685 351026**

## Gwasanaeth Lles Addysg

Caiff gwaith y Swyddog Cynhwysiant ei gyfarwyddo gan yr ysgol i sicrhau ei fod yn cael ei dargedu ar gyfer anghenion penodol pob ysgol. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- Cyngor ac arweiniad
- Ymweliadau â'r cartref
- Ysgrifennu llythyrau
- Cwrdd â rhieni a/neu eu plant
- Gwneud galwadau ffôn a/neu gyfeiriadau at "MIA"
- Cefnogaeth yn ystod proses erlyn
- Arwain gwasanaethau a gweithgareddau eraill i godi proffil presenoldeb yn eich ysgol

Mae cyngor, cefnogaeth ac arweiniad hefyd ar gael gan y canlynol:

- Presenoldeb misol a dadansoddi gwaharddiad gyda strategaethau arfaethedig
- Materion bwlio ac ymddygiad
- Plant sy'n colli addysg
- Dewis addysg yn y cartref

- Archwiliad blynyddol am bresenoldeb ac ymddygiad

**Am wybodaeth bellach cysylltwch:**

**Adele Stacey – 01685 724640** E-bost: adele.stacey@merthyr.gov.uk



## *ADRAN 2. CEFNOGAETH I RIENI*

### Tîm Rhianta

Cynnig cefnogaeth uniongyrchol i rieni i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed, drwy amrywiaeth o raglenni grŵp sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chefnogaeth unigol a fydd yn cynorthwyo i ddatblygu ymddygiad rhianta cadarnhaol. Ymhlith y rhestr o raglenni sydd ar gael mae:

### Rhaglen Rhianta y Blynyddoedd Rhyfeddol

Mae Rhaglen y Blynyddoedd Rhyfeddol yn canolbwyntio ar sgiliau rhianta y gwyddys eu bod yn hybu cymhwysedd cymdeithasol plant ac yn lleihau problemau ymddygiad, gan gynnwys strategaethau effeithiol, di-drais ar gyfer rheoli ymddygiad negyddol.

Caiff y rhaglenni eu targedu ar gyfer 2 grŵp oedran gwahanol 1-3 oed ar gyfer rhaglen Plant Bach a 2-8 oed ar gyfer y rhaglen Sylfaenol. Y prif feysydd dysgu a ddynodir yw:

- Sut i chwarae gyda'ch plentyn – adeiladu perthynas gadarnhaol
- Sut i helpu eich plentyn i ddysgu
- Canmoliaeth ac anogaeth effeithiol – adeiladu hunan-barch
- Sut i ysgogi eich plentyn
- Sut i symud ymlaen gyda therfynau a rheolau a sefydlu trefn
- Delio gyda chamymddwyn (gan gynnwys defnyddio 'amser allan')
- Datrys problemau
- Rhieni'n cynnal hunanreolaeth a defnyddio hunan-sgwrsio cadarnhaol a mwy

Rhaglen bwrpasol sydd hefyd wedi cael ei sefydlu i dargedu rhieni iau (21 ac iau)

### Rhaglen Rhianta New Forest

Mae'r rhaglen hon yn rhaglen benodol i gefnogi rhieni sy'n wynebu heriau gydag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio Gorfywiogrwydd. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth gadarn i deuluoedd am ADHD a strategaethau i'w helpu nhw fel teulu.

- Cynyddu dealltwriaeth y rhiant am ADHD,
- Gwella perthynas y rhiant a'r plentyn
- Gwella sgiliau'r rhieni wrth reoli ymddygiad



## Rhaglen Cryfhau Teuluoedd

Rhaglen 7 wythnos yw hon ar gyfer unrhyw deulu sy'n byw ym Merthyr Tudful sydd â phlentyn 10-14 oed. Mae cyflenwi'r rhaglen yn cynnwys y person ifanc. Mae tystiolaeth fod y rhaglen yn cefnogi rhieni a phobl ifanc drwy gyfnodau o newid. Mae Rhaglen Cryfhau Teuluoedd Merthyr Tudful yn cael ei chyflenwi ar y cyd rhwng Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaeth Cefnogi'r Teulu a Drug Aid Cymru

Mae Cryfhau Teuluoedd wedi ei gynllunio i:

- Helpu rhieni i adeiladu ar eu cryfderau wrth ddangos cariad a gosod terfynau
- Helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau wrth ddelio gyda phwysau cymheiriaid ac adeiladu dyfodol cadarnhaol
- Cynyddu hyder rhieni wrth osod ffiniau
- Adeiladu hyder mewn pobl ifanc
- Helpu pobl ifanc i osod nodau i'w dyfodol a chefnogi cyflawn i nodau
- Helpu pobl ifanc i adeiladu sgiliau i osgoi problemau gyda chyffuriau ac alcohol
- Cynorthwyo gyda phontio i'r ysgol uwchradd
- Datblygu empathi mewn pobl ifanc
- Helpu pobl ifanc a rhieni i ddynodi rhinweddau cadarnhaol a chryfderau yn ei gilydd
- Cefnogi rhieni i helpu eu hieuenctid i gael profiad da o flynyddoedd yr arddegau

## Take 3

Mae Take 3 yn rhaglen, sy'n cael ei harwain mewn grwpiau yn ddelfrydol. Mae'n defnyddio proses hyfforddi sgiliau gweithredol i helpu rhieni i gael gwybodaeth a sgiliau newydd. Mae'r rhaglen yn darparu cyfleoedd i rieni ddysgu drwy arsylwi, trafodaeth, ymarfer ac adborth.

Defnyddir rhannau o DVDs i arddangos sgiliau rhianta cadarnhaol. Yna caiff y sgiliau hyn eu hymarfer mewn grwpiau bach. Mae rhieni'n derbyn adborth adeiladol am eu defnydd o sgiliau mewn cyd-destun emosiynol gefnogol. Rhwng sesiynau, mae rhieni'n cwblhau tasgau i atgyfnerthu'r dysgu o'r sesiynau grŵp. Yn dilyn y sesiynau grŵp, mae tair sesiwn 15-30 munud yn darparu Cefnogaeth Ychwanegol i rieni wrth iddyn nhw roi ar waith yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn y sesiynau grŵp. Mae sesiwn grŵp terfynol yn cwblhau'r rhaglen.

- Rhaglen 8 wythnos a anelir at rieni i blant 11-6 oed i drafod:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 🟢 | Cefnogaeth Ychwanegol | 🟣 | Gwasanaeth Uwch | 🟠 | Creisis | 🔴 |

- Strategaethau rhianta effeithiol
- Sut i hybu datblygiad eich plentyn
- Sut i reoli problemau ymddygiad cyffredin plant
- Egwyddorion i'ch helpu chi i ddelio gyda bron unrhyw sefyllfa allai godi



## Early Bird Plus

Er mwyn gwneud y mwyaf o help cyson i'r plentyn mae rhaglen NAS Early Bird Plus yn cynnig hyfforddiant ar y cyd i rieni a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn. Y mae'n agored i dimau o 3 oedolyn: rhieni neu ofalwyr ynghyd â gweithiwr proffesiynol – fel Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Gynorthwyydd Cymorth Dysgu (CCD) – sy'n gweithio gyda phlentyn sydd wedi cael diagnosis o Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig.

Nod y rhaglen yw cefnogi rhieni yn ystod y cyfnod rhwng y diagnosis a lleoliad mewn ysgol, a'u grymuso a'u helpu i hwyluso cyfathrebu cymdeithasol y plentyn ac ymddygiad priodol yn ei amgylchedd naturiol. Mae hefyd yn helpu rhieni i sefydlu ymarfer da wrth ddelio gyda'u plentyn o oedran cynnar, er mwyn achub y blaen ar ymddygiad amhriodol yn datblygu.

## Croeso i'r Byd

Mae rhaglen Croeso i'r Byd yn grŵp i rieni sy'n disgwyl babi am wyth wythnos.

Mae rhieni'n mynychu'r grŵp o tua'r 24ydd wythnos o'r feichiogrwydd.

Ymhlith y pynciau mae empathi a sylw cariadus, datblygu ymennydd y babi, dewisiadau bwyta'n iach, bwydo o'r fron, gofal babi, rheoli stres a theimladau anodd, hybu hunan-barch a hyder, a pherthynas y cwpl.

## Cefnogaeth Ar-lein

www.thinkfamilyparenting.org.uk

https://gov.wales/parenting-give-it-time

https://www.merthyrfis.org/be-positive-not-perfect/positive-parenting/

**Am wybodaeth bellach am unrhyw un o'r uchod cysylltwch:**

**Antony Mee 01685 727395** E-bost: antony.mee@merthyr.gov.uk

**Rachel Church 01685 727401 E-bost : Rachel.church@merthyr.gov.uk**

## *ADRAN 3. CEFNOGAETH I DEULUOEDD*



## Hyb Cymorth Cynnar

Mae'r Hyb Cymorth Cynnar yn rhoi gwybodaeth a chyngor i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch yr heriau a allai fod ganddynt, yn cynnwys ffactorau a fydd yn effeithio ar ymddygiad y plentyn. Mae gwybodaeth helaeth gan y Tîm am y gwasanaethau ataliol sydd ar gael i deuluoedd gyda phlant cyn eu geni hyd at ddeunaw oed.

Bydd yr hyb yn ymgymryd â 'sgwrs beth sy'n cyfri', ac â chaniatâd byddant yn casglu gwybodaeth o wasanaethau perthnasol i lywio eu hargymhelliad o'r gwasanaeth mwyaf priodol i fodloni de illiannau y mae'r teulu'n eu dymuno. Gall y cyhoedd gael mynediad at yr Hyb Cymorth Cynnar dros y ffôn neu drwy fynychu'r Ganolfan Ddinesig.

Mae'r Hyb Cymorth Cynnar yn gweithio law yn llaw â model y Tîm o amgylch y Teulu ac mae'n borth i gael mynediad at gefnogaeth tîm o gwmpas y teulu.

**Os yw teulu neu weithiwr proffesiynol yn ansicr pa wasanaethau fyddai'n gweddu anghenion y teulu orau a/neu bod nifer o wasanaethau'n ofynnol gan deuluoedd, bydd cysylltu â'r Hyb Cymorth Cynnar yn cynorthwyo gyda hyn.**

**Am wybodaeth bellach cysylltwch:**

**Helen Lang – 01685-724503** E-bost: helen.lang@merthyr.gov.uk

## Tîm o Gwmpas y Teulu

Gall ymagwedd tîm o gwmpas y teulu helpu'r teuluoedd hynny y mae'n ofynnol iddynt gael cefnogaeth luosog ac sydd â llais drwy un "gweithiwr allweddol" sydd yno i gyflawni asesiad am eu holl anghenion, a datblygu un cynllun gweithredu aml-asiantaethol ar y cyd. Bydd y gwasanaethau hyn yn:

- Ymgymryd ag asesiad teuluol
- Cydlynu cyfarfodydd partner aml-asiantaethol i weithredu cynllun teulu sy'n seiliedig ar eu hanghenion dynodedig
- Darparu mentora a chefnogaeth i'r teulu yn ôl y gofyn

Ceir 4 prif bartner cyflenwi (Barnardo's, Cymorth Ieuenctid, Rhianta, Iechyd) sy'n darparu'r gwasanaeth hwn ac mae achosion wedi eu dynodi yn seiliedig ar anghenion y teulu. Ble y bo'n

briodol gallai hyn olygu achosion a ddynodwyd i asiantaethau eraill gydag arbenigedd penodol oddi fewn i'r gymuned.



## Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Merthyr Barnardos

**Cymorth i Deuluoedd:** Cefnogi rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y gymuned ac mewn amgylchiadau diwylliannol amrywiol. Canllawiau a chyngor wedi eu hanelu at gefnogi plant bregus a'u teuluoedd.

Am wybodaeth bellach cysylltwch Barnardo's: 01685 725171

## Y Rhaglen Deuluol

Mae'r Rhaglen Deuluol yn gweithio ledled rhanbarth Cwm Taf ac yn cynnig cefnogaeth arbenigol i deuluoedd sy'n profi cam-drin domestig ac sydd yn dymuno aros gyda'i gilydd. Wrth fabwysiadu ymagwedd teulu gyfan, bydd y gwasanaeth yn darparu ymyraethau therapiwtig a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch, rheoli risg, newid ymddygiad, effaith cam-drin domestig ar blant, ACES, cyfathrebu gyda pharch, ymlyniad a gwytnwch emosiynol.

**Am wybodaeth bellach cysylltwch: Sarah Wilson (Merthyr Tudful Ddiogelach) 01685 353999**

E-bost: sw@smt.org.uk

## Gwasanaeth Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal

Rhaglen lenyddol emosiynol (ELSA) a gynlluniwyd i dargedu a datblygu sgiliau cymdeithasol, dealltwriaeth o emosiynau, rheoli dicter, hunan-barch ac ymagweddau canolbwyntio ar atebion, gan dargedu plant sy'n derbyn gofal yn unig.


Mae Therapi Lego yn rhaglen sgiliau cymdeithasol sy'n defnyddio Lego fel cyfrwng i fynd i'r afael ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

**Am wybodaeth bellach cysylltwch: Jess Jones 01685 727395**

E-bost: Jessica.jones@merthyr.gov.uk



## Diffinio Anghenion Dysgu Ychwanegol





Degree of complexity – can move up or down depending on individual pupil needs


'Effective whole school practice and inclusion of all pupils. School delivers high quality routine teaching to meet individual pupil needs.


ALN identified, and school based IDP in place. Advice and support from outside agencies can be sought.


Provision that is beyond the capacity of the school to provide.


Darpariaeth Gyffredinol yw'r ymarfer effeithiol a ddisgwylir mewn lle i **bob** dysgwr i alluogi pob un ohonynt wneud cynnydd da o fannau cychwyn unigol. Mae'r ysgol yn dynodi ac yn gweithredu amrywiaeth o strategaethau ac ymyraethau sydd wedi eu profi i fod o fudd i'r ymarfer ar gyfer pob ardal mewn angen. Mae hyn yn cynnwys ansawdd uchel o'r canlynol:

Dysgu'r dosbarth gyfan.
Differiad effeithiol,
Gwaith grŵp a gwaith dan arweiniad,
Ymyraethau unigol,
Addasiadau rhesymol priodol i alluogi mynediad at amgylchedd yr ysgol, cwricwlwm a chyfleusterau i blant a phobl ifanc sy'n anabl.

| Cyffredinol | | Cefnogaeth Ychwanegol | | Gwasanaeth Uwch | | Creisis | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da gyda darpariaeth gyffredinol ac ni fydd ganddynt ADY nac angen Rhaglen Ddysgu Ychwanegol, caiff hyn ei arddangos yn weledol drwy gromlin normal diagram dosraniad, sydd wedi ei liwio isod i ddangos cymhlethdod anghenion ac amcangyfrif o'r achlysuron oddi fewn i'r boblogaeth.

17




**Diffinio ADY**

Ar sail tystiolaeth, yn cynnwys y data a gasglwyd fe ddylai fod yn bosibl i ddynodi dysgwyr sy'n gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl, caiff hyn ei amlinellu yng Nghod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru).

**Pwyntiau Allweddol wrth ddiffinio ADY – fel y'u hamlinellwyd yng Nghod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru)**

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Mae anghenion dysgu ychwanegol gan berson os oes ganddo ef neu hi anhawster neu anabledd dysgu (boed yr anhawster neu anabledd dysgu o ganlyniad i gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth dysgu ychwanegol.**

**Mae gan blentyn o oed ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu os oes ganddo e neu hi —**
**anhawster sylweddol fwy o ran dysgu na'r rhan fwyaf o bobl eraill o'r un oed, neu ag anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (c. 15) sy'n atal neu'n ei arbed e neu hi rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o'r fath sy'n cael eu darparu yn gyffredinol i eraill o'r un oed mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.**

**Mae gan blentyn o dan oed ysgol gorfodol anhawster neu anabledd dysgu os yw e neu hi, neu y byddai e neu hi pe na fyddai darpariaeth dysgu ychwanegol yn cael ei gynig, yn debygol o fod o fewn isadran (2) pan fydd o oedran gorfodol ysgol.**

**Nid oes gan berson anhawster neu anabledd dysgu am yr unig reswm fod yr iaith (neu ffurf ar iaith) y mae e neu hi neu y bydd e neu hi'n cael ei addysgu ynddo yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael ei defnyddio yn y cartref.**



Gellir nodweddu hyn fel cynnydd sydd:
Yn sylweddol arafach na chynnydd cymheiriaid sy'n dechrau ar yr un waelodlin,
Yn methu paru neu wella cyfradd cynnydd blaenorol y plentyn neu berson ifanc; neu
Yn methu cau, neu'n lledaenu, y bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i gymheiriaid, er gwaetha'r ffaith fod darparu'r gefnogaeth wedi ei anelu at gau'r bwlch.

Rhaid dod i farn ym mhob achos yn ôl beth sy'n rhesymol i ddisgwyl i blentyn neu berson ifanc ei gyflawni.

**CDU yn yr Ysgol – Dynodi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Gellir dynodi'r ychydig iawn o ddisgyblion nad ydynt yn gwneud cynnydd da gyda Darpariaeth Gyffredinol fel ADY a byddant angen Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY) sydd wedi ei hamlinellu mewn Cynllun Datblygu Unigol yn yr ysgol. **Fel yr amlinellwyd yn y gromlin ddosraniad normal, mae hyn yn debygol o fod yn llai na 10% o'r boblogaeth genedlaethol.**

Er mwyn llywio CDU yn yr ysgol, mae'n bosibl y bydd ysgolion yn ceisio ac yn gweithredu cyngor, cymorth a hyfforddiant oddi wrth weithwyr proffesiynol allanol, yn cynnwys gwasanaethu cefnogi'r Awdurdod Lleol (ALl), wrth ddiwallu anghenion disgyblion. Pan fo ysgol yn dynodi bod angen CDY ar ddysgwr, dylai'r ysgol ddefnyddio strategaethau ac ymyraethau sy'n ychwanegol at ac yn wahanol i'w Darpariaeth Gyffredinol o ansawdd uchel.

Bydd bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol pan fydd ei anghenion dysgu ychwanegol unigol wedi eu dynodi a phan fydd darpariaeth dysgu ychwanegol yn yr ysgol yn cael ei weithredu. Gallai rhai disgyblion wneud cynnydd digonol fel nad oes angen CDY arnynt mwyach ac y gellir bellach ddiwallu eu hanghenion oddi fewn i Ddarpariaeth Gyffredinol. Bydd gan ychydig iawn anghenion difrifol a chymhleth a bydd yn ofynnol iddynt gael CDY sy'n cael ei oruchwylio gan yr ALl.

**Cynllun Datblygu Unigol (CDU) wedi'i leoli yn yr ALl – ADY Difrifol a Chymhleth**

Os yw dysgwr yn parhau i brofi anawsterau cael mynediad at ddysgu a gwneud cynnydd, er gwaetha'r ddarpariaeth gyffredinol o ansawdd uchel a'r ychwanegolrwydd a ddarparwyd gan y CDU wedi'i leoli yn yr ALl, mae'n bosib y caiff ei ystyried fod ganddo anghenion difrifol a chymhleth. **Fel yr amlinellwyd yn y dosbarthiad cromlin normal, mae hwn yn debygol o fod yn llai na 2% o'r boblogaeth genedlaethol.**

Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r dysgwyr hyn gael darpariaeth na ellir ei ddarparu'n rhesymol oddi fewn i'r adnoddau sydd fel arfer ar gael mewn ysgol brif ffrwd. Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r dysgwyr hyn gael CDU a gynhelir gan yr ALl. Dylai cynnydd yn erbyn targedau gael eu tracio a'u hadolygu'n rheolaidd. Pan gaiff targedau eu bodloni, gall dysgwr ddychwelyd at ddarpariaeth sy'n cael ei oruchwylio oddi fewn i CDU a leol mewn ysgol.